Adroddiad i’r Pwyllgor Archwilio Cymunedau 25 Tachwedd 2013
Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol a Chamau Gweithredu Sir Ddinbych yn sgil Llifogydd Tachwedd 2012
Atodiad 2 – Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Argymhellion yr Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd Tachwedd 2012

## 1. Llanelwy

Canfu’r ymchwiliad a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ôl y llifogydd, fod yr amddiffynfeydd presennol yn Llanelwy’n diogelu yn erbyn digwyddiad 1 mewn 30 i’r gogledd o’r A55 (ger Parc Roe) ac yn erbyn digwyddiad 1 mewn 75 i’r de o’r A55. Mae hyn yn is na’r safon diogelwch sy’n cael ei ystyried yn addas. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried opsiynau tymor hir i leihau risg llifogydd i lefel sy’n fwy derbyniol ac mae yn y broses o weithredu mesurau tymor byr i leihau’r risg yn y cyfamser:

- Tymor byr
    - Codi arglawdd Parc Roe i sicrhau’r safon ofynnol o ran diogelwch o 1 mewn 75 nes gellir cael ateb tymor hir (gwaith wedi ei gwblhau)
    - Gwneud addasiadau i Bont Spring Gardens, yn cynnwys gosod rhwystrau y gellir eu symud a gwneud addasiadau i’r ffens rhwyllwaith uwchben dec y bont (gwaith i ddechrau yn Hydref 2013).
    - Clirio coed rhwng tafarn y New Inn a chydlifiad afonydd Clwyd ac Elwy (yn parhau fel rhan o brosiect wyth mis)
    - Gwelliannau i systemau telemetreg i fesur lefelau a llif yr afon yn fwy cywir.

- Tymor hir
    - Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio a dylunio opsiynau tymor hir fel rhan o broses a allai gymryd o leiaf tair blynedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n disgwyl cwblhau astudiaeth arfarnu prosiect erbyn Gwanwyn 2014 i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer ei gymeradwyo. Yn amodol ar gyllid gan LlC, gallai’r gwaith adeiladu ddechrau yn 2015/16. Mae’r Cyngor, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda LlC ynglŷn â dyrannu arian ar gyfer y prosiect.
    - Yr opsiynau sy’n cael eu hasesu fel rhan o’r prosiect yw codi’r byndiau amddiffynfeydd llifogydd yn barhaol trwy Lanelwy, tynnu / codi pont Spring Gardens, gosod byndiau amddiffynfeydd llifogydd i lawr yr afon yn Llanelwy a storio dŵr ar ddechrau’r rhwydwaith i fyny’r afon. Bydd y broses asesu’n nodi pa opsiwn yw’r mwyaf cost effeithiol. Mae'n bosibl y bydd yr ateb a ddewisir yn gyfuniad o wahanol opsiynau.

## 2. Rhuddlan, yn cynnwys Sarn Lane

Dylai’r mesurau tymor hir arfaethedig i leihau risg llifogydd yn Llanelwy hefyd leihau’r risg i gartrefi yn Rhuddlan ac o gwmpas.

**3. Lower Denbigh Road**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ehangu ei wasanaeth rhybuddio rhag llifogydd i gynnwys cartrefi ar eu pennau eu hunain yn Lower Denbigh Street. Bydd y gwasanaeth yn weithredol ar 23 Hydref 2013 a bydd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymweld â'r ardal i hyrwyddo'r gwasanaeth ac annog trigolion i ymuno ag ef.

**4. Brwcws, Dinbych**

Mae'r Cyngor wedi gosod falfiau atal y llif ar 4 draen dŵr wyneb yng nghyffiniau tanffordd yr A525 i atal y dŵr o Afon Ystrad rhag mynd i ddraeniau a gorlifo i dai. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gwneud gwaith modelu hydrolig fel rhan o astudiaeth ddichonoldeb i ganfod atebion peirianyddol posibl i leihau risg llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gobeithio cwblhau'r gwaith hwn erbyn Tachwedd 2013.

**5. Llanynys**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith clirio ffosydd yn Ionawr 2014. Bydd hyn yn lleihau risg llifogydd yn ystod digwyddiadau llifogydd cymedrol, ond ychydig o effaith y byddai'n ei gael pe bai digwyddiad ar yr un raddfa â llifogydd Tachwedd 2012.

**6. Gellifor**

Mae'r Cyngor wedi comisiynu astudiaeth hydrolegol o ddalgylch yr afon a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o lefel y risg llifogydd. Yn ei dro, bydd hyn yn galluogi i'r Cyngor ystyried opsiynau i leihau'r risg.

**7. Glasdir, Ruthun**

- Mae'r Cyngor wedi gosod bagiau tywod ar y bwnd amddiffynfeydd llifogydd presennol fel mesur dros dro i leihau risg llifogydd tra bod cynlluniau ar y gweill i ehangu'r bwnd yn unol ag argymhellion yr ymchwiliad annibynnol.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r gofynion ar gyfer Caniatâd Amddiffynfa Llifogydd ac mae wedi comisiynu ymgynghorwyr i baratoi'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd angenrheidiol. O ran ariannu, mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau gyda LlC ynglŷn â'r posibilrwydd o gael grant. Mae'r datblygwr tai, Taylor Wimpey (sy'n berchen ar y bwnd) wedi cynnig ariannu traean y gost.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i ddatblygu cynllun llifogydd cymunedol ar gyfer ystâd Glasdir, sy'n cynnwys penodi wardeniaid llifogydd cymunedol.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal archwiliad o Afon Clwyd trwy Ruthun a cherddodd Aelodau Etholedig Rhuthun ar hyd yr afon ar 23 Hydref 2013.

**8. Park Place, Stryd Mwrog, Maes Ffynnon, Rhuthun**

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud gwaith i drwsio bwnd yng nghyffiniau Cae Ddôl (roedd y bwnd wedi erydu cyn y llifogydd o ganlyniad i weithgarwch dynol).

- Gosodir falfiau i atal y llif ar y cysylltiadau gyli ar yr A494 ar Stryd Mwrog i atal llifogydd o'r Afon Clwyd rhag llifo i'r briffordd.
- Gwnaed gwaith cynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru i wal gerrig ger yr Afon Clwyd ym Maes Ffynnon.

**9. Llanbedr Dyffryn Clwyd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â chynnig y Cyngor i waith gael ei wneud i newid cylfat allweddol cyn Cynllun Rheoli Risg Llifogydd Llanbedr. Bydd y gwaith yn cael ei gomisiynu yn Hydref 2013.

**10. Loggerheads**

Dim gweithredu.

**11. Corwen**

Dim gweithredu.

**12. Glyndyfrdwy**

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng swyddogion y Cyngor â pherchnogion y tai a gafodd eu heffeithio a chynigiwyd cyngor ar sut i ddiogelu eiddo unigol. Nid yw'n ymddangos bod ateb syml i'r broblem.